Cenn@d

CHWEFROR 7 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 154

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i'r Parch Denis Young yn 100 oed

Dydd Llun, 12 Chwefror, bydd y Parch. Denis Young yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed. Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog iddo ar gyrraedd y garreg filltir nodedig hon. Cyfarchwn ei briod annwyl, Arvonia, hefyd, ei ferched, Einir a Llinos, a'r teulu oll, gan ddymuno bendith ar y dathlu a'r hel atgofion ar ganrif o hanes. Mae'r llongyfarchion gwresog yn cael eu hestyn ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru, gan ddiolch am wasanaeth gwerthfawr a chyfoethog fel Gweinidog yr Efengyl ar hyd y blynyddoedd. Anfonir cyfarchion hefyd ar ran Eglwys Caersalem, Caernarfon, lle bu'n aelod ffyddlon am nifer o flynyddoedd, cyn symud i fyw i Aberystwyth. Cyn ymddeol treuliodd flynyddoedd maith yn gweinidogaethu yng Nghymanfa Môn, sydd hefyd yn anfon eu cyfarchion. Diolchwn hefyd am y soned a ddaeth i law gan Denzil John i gyfarch Denis. Pen-blwydd hapus i chi, Denis, a phob dymuniad da i chi ac Arvonia i'r dyfodol.

Y Parch. Denis Young, Mrs Arvonia Young, a'u hŵyr, y Parch. Tomos Roberts-Young

Dennis Young yn 100 oed

Fel taniwr gynt ar reilffordd, profaist dân
  a'th hyrddiodd ar hyd cledrau amcan Duw,
a gwyddost mai cymylau'r Ysbryd Glân
  fu'n dyst o drên carlamus effro, byw.
Cyflwynaist eiriau'r Iesu ar dy daith
  wrth rannu gwirioneddau mawr y ffydd,
boed cyfarch gweithwyr balch bob diwrnod gwaith
  neu esgyn pulpud ar y sanctaidd ddydd.
Uniaethaist gyda'u hamgylchiadau hwy
  yn llais fu'n sôn am drugareddau gras,
yn dyst i Arglwydd byw sy'n llawer mwy
  na duwiau'r byd fu'n gaeth i'w bydol dras.
Rhoist ddiolch i Dduw am ei gynhaliaeth Ef
a rhannodd drwyddot ti drysorau'r Nef.

DIJ

Yn y rhifyn hwn cawn ddau gyfraniad â chysylltiad teuluol rhyngddynt. Ar drothwy ei ben-blwydd yn 100 oed a bron i 70 mlynedd ers iddo ddechrau ar ei weinidogaeth, mae'r Parch. Denis Young yn rhannu ychydig o hanes ei alwad a'i weledigaeth. Mae ei ŵyr, y Parch. Tomos Roberts-Young, bellach yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn ardal Tonna, ger Castell-nedd, ac wedi cyfrannu pennod mewn cyfrol newydd sy'n ystyried ffyrdd newydd o fynegi hunaniaeth fedyddiedig.

Sut ddaethoch chi i ffydd yn Iesu yn gyntaf?

Cefais fagwraeth fel y rhan fwyaf yn y pentref, gan gynnwys mynd i'r capel ar y Sul. Mynychu capel y Bedyddwyr, Bethel, Dre-fach, Felindre, oedd ein teulu ni, a byddwn yn ffyddlon i'r oedfaon. Ysgol eglwys oedd ysgol Dre-fach hefyd ac yno yr âi plant y pentref. Roedd yn rhaid adrodd Gweddi'r Arglwydd, y Deg Gorchymyn a Chredo'r Apostolion! Wedi cyrraedd tua'r 15 oed roedd yn arferiad cael eich bedyddio yn Bethel er mwyn dod yn aelodau, a dyna ddigwyddodd i nifer ohonom. Ond trist yw cyfaddef nad oedd gennyf brofiad bywiol o'r Arglwydd. Trefn ac arferiad oedd. Roeddwn yn barchus grefyddol, ond, a dyfynnu Gwenallt: 'Gwae i ni wybod y geiriau heb adnabod y Gair'.

Mae'n rhaid bod rhywbeth wedi newid i chi fod yn weinidog wedyn! Beth newidiodd?

Bu'n rhaid gadael Ysgol Ramadeg Llandysul gan fod angen help gartref, a'm tad wedi marw. Yn 15 oed, felly, dechreuais weithio mewn siop groser, ac wedyn gweithio'r nos ar y rheilffordd. Dyma gyfnod yr Ail Ryfel Byd, ac yn hytrach na chael fy ngorfodi i ymuno â'r lluoedd arfog fel fy mrodyr, cefais fy anfon i Fryste i weithio gan fod cynnal y trenau yn waith 'o bwysigrwydd cenedlaethol'. Profiad chwithig oedd symud o gefn gwlad i ganol y 'blacowt' a bomio yn y ddinas! Trugaredd oedd cael fy anfon 'nôl i Gymru.

Yng Nghaerfyrddin bu trobwynt mawr. Cefais fy rhoi i weithio fel taniwr ar yr '*engines* mawr' gyda gyrrwr o'r enw Bill Thomas. Fe sylweddolais fod 'na rywbeth yn wahanol ynddo. Byddai'n tynnu ei gap ac yn diolch cyn bwyta'i frechdanau yn y sied

(parhad ar y dudalen nesaf)

'Dai' yn dod 'nôl i'r capel
Tudalen 4

Gwrthdaro a thrais: effaith hirdymor rhyfel
Tudalen 5

Oedfa Cenn@d – 'Iesu, ein teml'
Tudalen 8

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i'r Parch Denis Young yn 100 oed

(parhad o dudalen 1)

gyda'r gweithwyr! Doedd arno ddim cywilydd o'i gred. Soniai a chanai yn naturiol am ei Waredwr, yr Arglwydd Iesu Grist. Ond cau fy nghlustiau wnawn i. Roedd gan Dduw gynlluniau eraill ac yn y diwedd bu'n rhaid i mi ildio! Ar fy ngliniau yn fy ystafell wely yn Dre-fach, yn edifeiriol gofynnais am faddeuant am fod mor benstiff. Teimlais y maglau'n cael eu torri 'a'm traed yn gwbl rydd' gan fod yr Iesu wedi marw ar y groes yn fy lle ac wedi atgyfodi i'm cyfiawnhau!

Wedyn, bu cyfnod newydd. Gadewais y rheilffordd a chael fy apwyntio'n is-reolwr i Edward Davies, Bedyddiwr, yn siop Star Aberteifi. Dyma gyfnod coleg profiad – yn wir, cael prawf ar fy ffydd a dysgu pwyso ar yr Arglwydd a marw i'r hunan! Yn raddol wedyn bu'r Arglwydd yn fy ngalw i bregethu. Mae hanes fy nhaith i bregethu yn saga, ond yn y man fe gyrhaeddais Goleg y Bedyddwyr fel ymgeisydd i'r weinidogaeth. Ordeiniwyd fi i gyflawn waith y weinidogaeth yn eglwys Blaen-y-cwm, Rhondda Fawr, ym mis Medi 1954!

Beth yw'r gwersi mwyaf ddysgoch chi yn ystod eich bywyd a'ch gweinidogaeth?

Un o'r gwersi pwysicaf i mi yw pwysigrwydd gweddi. Cynhelid cwrdd gweddi wythnosol ym mhob eglwys y bûm ynddi. Dyma'r 'power-house' yn ôl un hen aelod ym Mlaen-y-cwm! Peth arall sy'n wir iawn yw mai gweld ein gilydd yn unig rydyn ni, a bod pob math o broblemau yn aml ynghudd gan bobl. Felly, mae angen ysbryd cariad ac 'na fernwch fel na'ch barner'.

Ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae'r cyfan yn llaw'r Duw ffyddlon a thrugarog sydd wedi rhoi llythyr cariad i ni, sef ei Air sanctaidd. Bydd y Gair ar gael i bob un a drws gweddi ar agor bob amser!

Golwg newydd ar hunaniaeth fedyddiedig Gymreig

Ym 1986 fe wnaeth Brian Haymes, a oedd newydd ei benodi'n Brifathro ar Goleg Bedyddwyr y Gogledd (*Northern Baptist College*) ym Manceinion, draddodi cyfres o anerchiadau i Gymanfa Fedyddiedig Swydd Efrog. Cyhoeddwyd yr anerchiadau mewn llyfr â'r teitl: *A Question of Identity: Reflections on Baptist Principles and Practice*. Yn dilyn hyn, mae'r llyfr presennol, *Voicing New Questions for Baptist Identity* (gol. Eleasah P. Louis ac Andy Goodliff, 2023) yn cydnabod bod y rhan fwyaf o fyfyrdodau diwinyddol bedyddiedig wedi cael eu gwneud gan ysgolheigion gwyn, gwrywaidd, ac fe allwn ni ychwanegu at y rhestr yna: Seisnig. Ymgais yw'r llyfr newydd yma i ehangu ar fyfyrdodau Haymes a'r cysyniad o 'hunaniaeth fedyddiedig' drwy bersbectifau gwahanol, yn benodol ar y themâu: hil, rhyw, anabledd, cenedligrwydd a rhywioldeb. Mae'r golygyddion yn cydnabod nad yw Haymes ac amryw o ysgolheigion bedyddiedig eraill (e.e. Paul Fiddes, Nigel Wright, John Colwell, Paul Beasley-Murray, Christopher Ellis a Stephen Holmes) wedi rhoi sylw i leisiau a bywydau pobl fedyddiedig ddu, benywaidd, anabl, heb fod yn Seisnig, a LHDT.

Mae'r golygyddion yn mynd ymlaen i ddweud bod Paul Fiddes, yn ei gampwaith *Tracks and Traces*, yn dadlau mai'r ffordd fedyddiedig o ddiwinydda yw rhoi sylw i brofiad, y gyffes, a hanesion neu storïau'r gymuned. Ac felly, wrth gofio am bwysigrwydd lleisiau'r gymuned, gadewch i ni restru'r penodau sydd yn cael sylw yn y llyfr yma: 'Racism and the Church Meeting' — Ruth Moriarty; 'Bread, Jerk Chicken, Wine and Whisky: New Food at the Lord's Table' — Simon Jay; 'Preaching with sick on my shoulder: reflections on motherhood and Baptist ministry' — Leigh Greenwood; 'The Intersection of Baptists and Disability' — Martin Hobgen; 'Can We Talk? A Reflection on Baptists Together and Equal Marriage' — Pam Davies; 'Welsh Baptist Worship: Now and Then – A Hope of Retrieval?' — Tomos Roberts-Young; 'Dissent, De-colonisation and the De-Churched' — Eleasah P. Louis; 'Amber-tinted spectacles: learning to live with lament' — Tim Judson; 'A Response' — Anthony Reddie (ym mis Medi 2023, penodwyd Reddie yn Athro Diwinyddiaeth Ddu ['Black Theology'], y cyntaf yn hanes Prifysgol Rhydychen).

Mae fy mhennod i'n canolbwyntio ar draddodiad y 'canu pwnc' sydd yn benodol i dde-orllewin Cymru. Wrth feddwl am y dadeni sydd yn digwydd gyda'r plygain yng Nghymru a chanu'r salmau yn Ynysoedd Heledd (Hebrides), mae'r bennod yn dadlau bod yna gyfle nawr i ni feddwl o'r newydd am ganu pwnc, yn enwedig gan ei fod yn draddodiad sydd mewn perygl o gael ei anghofio a'i golli. Ychydig yw'r rhai sydd yn parhau i gymryd rhan mewn Cymanfa Bwnc.

Oedfa sy'n cael ei chynnal ar y Llungwyn, y dydd Llun ar ôl y Sulgwyn, yw'r Gymanfa Bwnc. Mae'n oedfa lle mae'r ysgrythur yn cael ei ei llafarganu, ac ar ôl y llafarganu byddai'r capeli yn trafod a hyd yn oed yn dadlau dros y testun oedd newydd gael ei lafarganu. Mae'r bennod yn mynd ati i ddadlau nad ailadrodd y gorffennol yn amrwd sydd ei angen. Yn hytrach, mae angen meddwl o'r newydd am beth yw bod yn Fedyddiwr yng Nghymru yn yr



unfed ganrif a'r hugain a bod yn rhan o draddodiad sydd dros 300 mlwydd oed, a sut mae bod yn rhan o'r traddodiad yma mewn ffordd briodol i'n cyd-destun ni.

Wrth ganolbwyntio ar amryw o draddodiadau, ysgrifennwyd y bennod yn y cyd-destun cyfoes ehangach ac mae'n ceisio cynnig beirniadaeth ar Gerddoriaeth Gristnogol Gyfoes (GGG). Mae'n drist nodi bod y mwyafrif o'r caneuon newydd sydd yn cael eu cyflwyno i eglwysi Cymraeg eu hiaith yng Nghymru yn gyfieithiadau o ganeuon GGG Eingl-Americanaidd. Un o'r pethau mwyaf cyffrous imi ei ddarganfod wrth ysgrifennu oedd, er mai traddodiad oedd yn benodol i dde-orllewin Cymru ydoedd, wrth wrando ar leisiau gwahanol bobl, rydym yn clywed *nad* traddodiad unffurf

(parhad ar y dudalen nesaf)

Golwg newydd ar hunaniaeth fedyddiedig Gymreig

(parhad o dudalen 1)

(monolithic) oedd canu pwnc ond bod gan bob ardal ei ffurf arbennig ei hunan o ganu ac addoli. Mewn cyd-destun lle rydym ni'n fwy tebygol o ganu cyfieithiad sydd yn deillio o draddodiad modern lled-unffurf (h.y. GGG), mae'n bwysig cofio am amrywiaeth lleol Cymreig. Yn y cyd-destun yma rydw i'n galw am ailgydio yn y canu pwnc mewn byd cyfoes.

Mae cwestiynu natur hunaniaeth fedyddiedig Gymreig yn rhywbeth sydd yn dasg lawer ry eang i mi ar fy mhen fy hun. Er nad ydw i'n ysgolhaig, rydw i'n ymwybodol fy mod i'n berson gwyn a gwrywaidd. Efallai, wrth ddarllen y rhestr o benodau, eich bod wedi uniaethu ag un neu nifer ohonyn nhw. Efallai eich bod wedi myfyrio ar eich hunaniaeth fel Bedyddiwr Cymraeg neu Fedyddwraig Gymraeg, neu un o'r amryw draddodiadau eraill sydd yn cael eu cynrychioli yn *Cenn@d*. Efallai fod y syniad o fyfyrio ar eich hunaniaeth grefyddol Gymraeg yn newydd i chi. Fel un o'r awduron, rwyf am fod yn hunanol ac argymell y llyfr yma i chi fel rhagflas i ni fel Cymry (lluosog), yn y gobaith y byddwn ni'n myfyrio'n ehangach ar beth ydyw bod yn Gristion yng Nghymru yn 2024 yng nghyd-destun ein hunaniaethau gwahanol ac unigryw fel pobl sydd wedi cael ein hailgreu o'r newydd ar lun a delw'r Crist atgyfodedig.

Tomos G. Roberts-Young
Tonna

Y Sioe Fawr, Llanelwedd, 22–5 Gorffennaf 2024: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru am 2.30 o'r gloch bnawn Mercher, 6 Mawrth 2024, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'n stondin.

Cynhelir y Sioe yn ôl ei harfer yn Llanelwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt rhwng 22 a 25 Gorffennaf, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib gyda'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

EXODUS!

Deunydd Sul Cyfiawnder Hiliol, 11 Chwefror 2004

(neu unrhyw bryd arall fo'n addas i'ch eglwys)

Mae adnoddau Cymraeg a Saesneg ar gyfer nodi Sul Cyfiawnder Hiliol 2024 yn archwilio symudiad pobl o'u mamwlad i'r lleoedd y maent yn eu galw'n gartref bellach. Archwilir y cymhellion y tu ôl i'r mudiad hwn – y teithiau a wnaed, a'r derbyniad neu'r croeso a geir wrth gyrraedd.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Uchel Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR), 'Mae o leiaf 108.4 miliwn o bobl ledled y byd wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi. Yn eu plith mae bron i 35.3 miliwn o ffoaduriaid, ac mae tua 41 y cant ohonynt o dan 18 oed.'[1]

Mae Ewrop yn un o'r llefydd hynny yn y byd y mae pobl wedi bod yn ffoi iddo am ddiogelwch. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi gweld newydd-ddyfodiaid yn dianc rhag rhyfel a chynnwrf yn Afghanistan, Syria ac Wcráin – y tair gwlad â'r nifer mwyaf o ffoaduriaid yn y byd.[2] Yn yr un modd, mae gwrthdaro hirfaith mewn rhannau o Affrica, y Dwyrain Canol ac Asia wedi



bod yn 'gwthio' ffactorau ar gyfer symud i Ewrop.

Er nad yw Prydain bellach yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, mae ei chysylltiadau â chyfandir Ewrop yn parhau i fod yn annileadwy ac, ochr yn ochr ag Iwerddon, fe'i hystyrir yn 'gyrchfan' i lawer sy'n ceisio lloches. Ar ben hynny, dros y blynyddoedd diwethaf mae'n ymddangos fel pe bai agweddau wedi caledu ynghylch 'mewnfudiad' i'r glannau hyn. Gellir dadlau bod yr argyfwng ffoaduriaid byd-eang, oportiwnistiaeth wleidyddol ac argyfwng costau byw wedi newid y naratif, yn enwedig tuag at y rhai o'r tu allan i Ewrop sy'n ceisio noddfa o'i mewn.

O ystyried yr argyfwng, nod yr adnodd Sul Cyfiawnder Hiliol hwn yw taflu goleuni Beiblaidd ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, a'r ffordd y mae Cristnogion yn gwneud gwahaniaeth o fewn y meysydd hyn, ac y gallant wneud gwahaniaeth. Mae hwn yn fater cyfiawnder hiliol oherwydd, ar wahân i Wcráin, mae gan y rhan fwyaf o'r rhai sy'n ceisio lloches wynebau Du a Brown. Yn fwy na hynny, mae'n fater rhyng-ffydd/cyfiawnder crefyddol oherwydd nid yw llawer ohonynt yn Gristnogion.

Nod yr adnodd hwn yw hysbysu, herio ac ysbrydoli pawb i weddïo a gweithredu, fel bod lletygarwch ac nid gelyniaeth yn dod yn agwedd gyffredinol at y rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth, perygl, tlodi a rhyfel.

Gellir dod o hyd i'r deunyddiau Cymraeg i'w lawrlwytho wrth ddilyn y ddolen hon: Sul Cyfiawnder Hiliol 2024 (ctbi.org.uk)

1 'How many refugees are there around the world?', UNHCR
2 'Forced to flee: Top countries refugees are coming from', World Vision

Richard Reddie
Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant,
Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
Cydlynydd, Rhwydwaith Ffoaduriaid yr Eglwysi

‘Dai’ yn dod ’nôl i’r capel

Aeth 135 o flynyddoedd heibio ers i David Lloyd George a Margaret Owen o fferm Mynydd Ednyfed, Cricieth, briodi yng Nghapel Pencaenewydd yn Eifionydd. Fe’u priodwyd mewn gwasanaeth distaw i griw dethol o bobl, allan o glyw’r cyhoedd a’r cyfryngau, gyda Richard Lloyd, ei ewythr, a’r Parch. John Owen yn gweinyddu.

Mae’n debyg nad oedd rhieni Margaret yn gefnogol i’r briodas. Roedd teulu Mynydd Ednyfed yn Fethodistiaid Calfinaidd pybyr tra perthynai teulu’r Georgiaid i’r Bedyddwyr Campbelaidd oedd ar y pryd yn cael eu hystyried gan rai fel sect. Beth bynnag, priodwyd y ddau yn y capel ar 24 Ionawr 1888, ond ni fynychodd ei fam na’i chwaer y gwasanaeth.

Buont yn briod am 53 o flynyddoedd, tan farwolaeth Margaret yn 1941, a ganwyd iddynt bump o blant. Yn dilyn ei marwolaeth hi, priododd Lloyd George â Frances Stevenson a fuasai’n ysgrifenyddes bersonol iddo, ond bu yntau farw ymhen dwy flynedd, ar 26 Mawrth 1945.

Bu’n ffigwr dylanwadol iawn yng ngwleidyddiaeth Prydain gan dreulio cyfnodau fel Canghellor y Trysorlys a Gweinidog Arfau cyn cael ei ethol yn Brif Weinidog yn 1916 – swydd a ddaliodd am chwe blynedd. Câi ei adnabod yn y swydd honno fel ‘y Dewin Cymreig’, a hyd yma fo ydi’r unig Gymro i wasanaethu fel Prif Weinidog yn San Steffan.

Nos Wener, 23 Chwefror, bydd ‘Dai’ yn dychwelyd i Gapel Pencaenewydd er mwyn cyflwyno hanes ei fywyd mewn drama un person, gyda’r gwleidydd enwog yn cael ei bortreadu gan yr actor Carwyn Jones. Drama ydi hi gan gwmni Mewn Cymeriad. Ysgrifennwyd *Dai* gan Manon Steffan Ros a’i chyfarwyddo gan Rhian Blythe. Gellir cael tocynnau am £12 yr un o wefan www.mewncymeriad.cymru.

Meddai Eleri Twynog o’r cwmni: ‘Drama un cymeriad yw hon sy’n olrhain hanes David Lloyd George, un o Gymry Cymraeg mwyaf dadleuol ein hanes. Dewch gyda ni drwy ddrws rhif 10 Stryd Downing i gyfarfod y Prif Weinidog o Lanystumdwy. Cawn ein tywys drwy ddigwyddiadau mawr ei fywyd a’r dewisiadau a wnaeth ar y daith, gan bwyso a mesur y drwg a’r da.’

Pa fersiwn o Lloyd George ddaw i’ch meddwl chi gyntaf, tybed? Beth am ichi ymuno â’r gynulleidfa yng Nghapel Pencaenewydd ar 23 Chwefror am 7.30 i gael clywed ei stori ryfeddol yn llawn.

Aled Davies

Bydd y ddrama’n cael ei chyflwyno mewn lleoliadau eraill ar hyd a lled Cymru rhwng 7 a 24 Chwefror – ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.mewncymeriad.cymru

Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn, 27 Mai–1 Mehefin 2024: Pabell yr Eglwysi a’r Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7 o’r gloch nos Fercher, 6 Mawrth, yng Nghapel Moreia, Llanfair Caereinion, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni.

Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau cynllunio ar gyfer yr eisteddfod, a gynhelir rhwng 27 Mai a 1 Mehefin ar gyrion pentref Meifod ym mwynder Maldwyn. Yn ôl yr arfer, bydd gan yr enwadau stondin/uned yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol.

Fe’ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a’r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu’r neges hon mor eang â phosib gyda’ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Gwrthdaro a thrais: effaith hirdymor rhyfel

Mae'r gwrthdaro sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol ac mewn sawl man arall yn y byd yn peri gofid i bob heddychwr, ac mae'n debygol y bydd y trais yn dwysáu ymhellach. Mae'r angen am gymod yn amlwg, wrth i farwolaethau a dioddefaint pobl ddiniwed gynyddu, ond nid yw'r trawma a ddaw yn sgil rhyfel mor syml â nodi niferoedd y byw a marw. O gael cip ar wir effaith hirdymor rhyfel gwelir pam nad ydym yn medru parhau i ddefnyddio gwrthdaro fel yr ateb i anghydfod.

Gall y canlynol achosi trawma rhyfel:

- bod yn dyst i weld rhyfel yn datblygu
- profiad uniongyrchol o ymladd
- gweld pobl yn cael eu clwyfo, eu hanffurfio, neu eu lladd
- achosi poen i rywun neu ladd person arall
- rhoi gorchmynion sy'n arwain at boen neu farwolaeth pobl eraill.

Mae'n lled hysbys fod canran fawr o filwyr yn dioddef o PTSD o ganlyniad i'r hyn maent wedi ei brofi mewn gwrthdaro. Ond hefyd, mae dros 65% o sifiliaid sydd wedi profi rhyfel yn dioddef rhyw fath o drawma rheolaidd. Po fwyaf y bydd yr unigolion hynny'n profi gwrthdaro, y mwyaf tebygol ydynt o ddioddef problemau iechyd meddwl. Hynny yw, nid rhywbeth sy'n digwydd i unigolion yn unig yw trawma rhyfel ond rhywbeth cymunedol sy'n medru dylanwadu ar y gymdeithas gyfan. Gall hyn yn ei dro arwain at broblemau eraill, megis radicaleiddio, ac mae unigolion sy'n profi trawma rhyfel yn fwy tebygol o ymuno â grwpiau terfysgol. Dengys hyn gylch dieflig o drais, lle mae gwrthdaro'n arwain at fwy o wrthdaro.

Gall trawma rhyfel hefyd dreiddio o un genhedlaeth i'r llall, ac mae rhai rhyfeloedd yn dal i effeithio ar bobl dair cenhedlaeth ar ôl i'r gwrthdaro ddod i ben. Canfuwyd y gall hyn arwain at bryder, straen, cywilydd, drwgdybiaeth ac ofn. Hynny yw, mae'n bosib y gellir trosglwyddo trawma i'r genhedlaeth nesaf oherwydd y boen a'r erchyllterau y mae pobl yn eu dioddef o ganlyniad i ryfel.

Un o brif sgileffeithiau rhyfel yw ffoaduriaid, ac mae'r garfan hon yn cael ei heffeithio gan sawl lefel o drawma a phroblemau iechyd meddwl. Gall y trawma amrywio o ansicrwydd parhaus oherwydd pryder am statws cyfreithiol i ddiffyg cefnogaeth gymdeithasol. Yn ôl UNICEF, plant yw hanner ffoaduriaid rhyfel, a gall y trawma y maent yn ei wynebu gael effaith hirdymor arnynt oherwydd diffyg maeth sy'n dylanwadu ar eu datblygiad corfforol. Hefyd, gall ceisio deall ymddygiad rhieni a diffyg cefnogaeth achosi problemau wrth iddynt dyfu'n oedolion.

Cip sydyn yn unig yw hwn ar y trawma y mae rhyfel yn ei achosi i bobl ddiniwed, a heddiw mae yna filiynau o enghreifftiau o'r effaith seicolegol a chorfforol y mae gwrthdaro'n ei greu. Un peth sy'n sicr yw fod yn rhaid edrych ar lwybr cymod os nad ydym eisiau i'r trawma hwn barhau.

Rhun Dafydd
Cadeirydd
Cymdeithas y Cymod

Ordeinio Blaenor yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

Yma gwelwn lun o Mr Daniel Thomas, Capel Gwynfil, Llangeitho, yng nghwmni'r Dr Rhidian Griffiths (Llywydd yr Henaduriaeth) a'r Parch. Richard Brunt (Llywydd y Gymdeithasfa yn y De). Mewn eisteddiad o Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro a gynhaliwyd ddydd Iau, 25 Ionawr 2024, yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, ordeiniwyd Mr Daniel Thomas yn flaenor. Dymunwn yn dda iddo ac i'w eglwys.



Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion – dolen newydd

Yn yr erthygl gan Vaughan Salisbury ar Gysylltu Eglwysi ac Ysgolion yn rhifyn yr wythnos diwethaf o *Cenn@d*, fe gafwyd nad oedd y ddolen I'r adnoddau y soniwyd andanynt yn gweithio. Ymddiheurwn am hyn a chynnig y ddolen yma er mwyn cael mynediad at y ddogfen y soniwyd amdani: https://www.ebcpcw.cymru/wp-content/uploads/2023/12/Dogfen-Cysylltu-Eglwysi-ag-Ysgolion-Cym.pdf

Eco-eglwysi – sesiynau cydenwadol

Eglwys Fethodistaidd Wrecsam,
Stryd Regent, Wrecsam
Dydd Mercher, 21 Chwefror
Coffi am 1.45pm, i ddechrau am 2 o'r gloch

Eglwys Fethodistaidd y Drenewydd,
Lôn Gefn, y Drenewydd
Bore Iau, 22 Chwefror
Coffi am 10.15, i ddechrau am 10.30 o'r gloch

Ymunwch â ni i edrych ar Gynllun Eco-eglwysi (Eco Church). Dewch i ddysgu am fwriad y rhaglen, a sut i fynd ati i ymuno a gweithredu. Bydd cyfle i glywed profiad rhai yn yr ardal sydd wedi ymuno â'r cynllun ac eisoes wedi derbyn gwobr. Cyfarfod anuffurfiol yw hwn, a bydd cyfle i archwilio, gofyn cwestiynau, sgwrsio, a dysgu mwy am sut i ofalu'n well am y greadigaeth fel capeli ac eglwysi.

Croeso cynnes i chi i gyd!

Delyth Higgins
Swyddog Eco Church- Cymru
A Rocha UK

delyth.higgins@arocha.org

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 20
Pregethu
Sul, 11 Chwefror

Gweddi
Arglwydd Dduw, helpa fi i feddwl yn ystod y myfyrdod hwn am bregethwyr y bu i mi eu clywed. Diolch am yr amrywiaeth doniau yn ein pulpudau – rhai yn lleisiau amlwg ac eraill yn bobl dawel a distadl, ond yr un mor bwysig ac effeithiol i ti. Amen.

Darlleniad – Actau 18: 24–8 'Apolos yn Pregethu yn Effesus'

Cyflwyniad
Pan fyddwn yn ystyried gwaith yr eglwys ac yn nodi bod yr eglwys yn brysur, mae perygl i ni anghofio am briod waith yr eglwys, sef addoli a phregethu, gweinidogaethu a chenhadu. Roedd yr Iddewon wedi etifeddu trefn o grefydda oddi wrth eu cyndadau a fyddai'n rhoi pwyslais ar addoli. Ers y cyfnodau cynnar, roeddent yn arfer adrodd salmau a llafarganu deunydd gweddigar. Byddai'r proffwydi'n cyfarch pobl 'yn enw'r Arglwydd' ac yn rhoi materion y dydd yng nghyd-destun natur ac amcan Duw. Onid felly y bu'r proffwyd erioed? Gwelid Iesu fel athro teithiol: nid ef oedd y cyntaf ac nid ef oedd yr olaf i gyflawni swyddogaeth felly. Byddai gan y werin ddiddordeb yn neges y proffwydi, ac roedd yr offeiriaid a'r werin fel ei gilydd yn 'disgwyl y Meseia'.

Yn Llyfr yr Actau clywn am bregethu'r Apostolion yn cyhoeddi'r gwirionedd am Dduw yn Iesu Grist. Gair pwysig y drafodaeth Feiblaidd yw 'kerugma' a nodir enghreifftiau ohono yn yr Actau. Dangosodd Luc fod Paul yn pregethu hefyd, a gwelir enghraifft amlwg o hynny yn Actau 17, ac yntau yn Athen wedi codi ei destun o arysgrif ar un o'r allorau wrth ymyl y ffordd 'I'r Duw nid adwaenir'. Bu pregethu yn rhan ganolog o fywyd a thystiolaeth yr Eglwys ar hyd y canrifoedd ac ar draws y traddodiadau enwadol. Erys yr un swyddogaeth heddiw, a bydd Duw o hyd yn annog rhywrai o'r newydd i gyhoeddi ei air i bobloedd daear.

Myfyrdod
Mae gan holl deulu'r ffydd ryw ddawn i'w defnyddio yng ngwaith yr eglwys, ac nid pawb sydd â doniau fel y rhai a welwyd ym mywyd Daniel Rowland, Martyn Lloyd-Jones a Martin Luther King. Ceir enghreifftiau lu o bregethwyr eneiniedig, a phrin bod modd disgwyl i unrhyw gyfnod gytuno ar y doniau amlycaf a welwyd yn eu gwledydd.

Yn ystod y mis hwn, bydd y Parch. Denis Young, un a anwyd yng Ngheredigion, yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Bu'n gweinidogaethu ym Morgannwg, Myrddin a Môn, a bellach mae wedi dychwelyd i fyw yn Aberystwyth, i gael bod yng nghwmni Llinos, ei ferch. Tybed sawl gweinidog a gyrhaeddodd y garreg filltir honno, ac wedi cael y cyfle i bregethu â'r fath arddeliad ar draws y degawdau? Diolchwn am bob pregethwr, beth bynnag ei oed, boed wryw neu fenyw, llenyddol neu werinol, esboniadol neu efengylaidd; maent oll yn defnyddio'u doniau amrywiol i dystio i'w profiad o Dduw yng Nghrist yn 'achub gwael golledig euog ddyn'.

Bydd rhai'n debygol o ddweud eu bod fel Aaron, heb y ddawn i siarad yn gyhoeddus. Er hynny, gall pawb ddefnyddio'i ddawn i siarad, a hynny nid i gynulleidfa ffurfiol, ond dros baned mewn caffi neu ar adeg briodol yn y gweithle neu mewn man hamdden. Bydd y mwyafrif yn medru sôn am dywydd y tymor neu newyddion y dydd, a gall pawb rannu rhywbeth o brofiad oedfa neu ddarn a ddarllenwyd am Iesu Grist. Nid gwaith i bobl hyfforddedig yw rhannu profiad a dwyn tystiolaeth, ond gellir ei weld fel cyfle i gyfrannu i fwrlwm bywyd bob dydd pawb. Term gafaelgar y Parch. Jack Brown, cyn-lywydd y Bedyddwyr yn Lloegr, oedd 'gossiping the gospel' – 'cloncan am Iesu', ac mae'r reddf i gloncan yn perthyn i'r mwyafrif ohonom.

Gweddi
Diolch, Arglwydd, am y ddawn i sgwrsio a rhannu ag eraill brofiadau bywyd a thrafod newyddion y dydd. Helpa ni o'r newydd i rannu ag eraill beth yw ein profiad ohonot, ac i wneud hynny yn llawen ac yn anffurfiol. Cofiwn o hyd mai pregeth fwyaf pob un yw ei ffordd o fyw yn y byd. Boed i'm bywyd i fod yn llawn ohonot ti. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried
1. Nodir bod Apollos wedi dechrau ag un bregeth yn unig yn ei fynwes. Beth dybiwch chi oedd ei neges, a beth yw ei neges yn nhermau heddiw?
2. Sylwn fod y gŵr a'r wraig wedi cael eu harwain i'w feithrin ymhellach yn y ffydd. Pwy sy'n gwneud hynny heddiw?
3. Mewn nifer o wledydd heddiw, fel Pacistan a Sudan, mae yna erlid ar Gristnogion. Pe byddai hynny'n digwydd yng Nghymru, a fyddem yn barod i wynebu trais a thlodi oherwydd bod Iesu yn fyw i ni?
4. A fu gormod o bregethu moesoldeb yn ein cyfnod ni, a dim digon o 'iachawdwriaeth'?
5. Meddyliwch am un person rydych yn ei (h)adnabod, ac ystyried beth fyddai eich neges graidd o dystiolaeth iddi hi/iddo ef.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 11 Chwefror am 7.30yh
Y Grawys
Bydd Nia yng Nghaerfyrddin i gwrdd â theuluoedd sy'n rhoi hunan-aberth ar waith i helpu banc bwyd yn nhymor y Grawys. A chawn fwynhau canu bendigedig o Gapel Gellimanwydd, Rhydaman.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 11 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

Oedfa Radio Cymru
Sul, 11 Chwefror, am 12yp
Oedfa dan ofal Dewi Tudur, Talsarnau

Cyfarfod Sefydlu yng Ngofalaeth Bro Colwyn

O'r chwith i'r dde: Owain Davies, Ifor Jones, Iwan Llewelyn Jones, Helen Jones, Trefor Lewis, Alan Spencer a Dilwyn Price

Nos Fercher, 10 Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth sefydlu'r Parchedig Helen Wyn Jones, gweinidog Gofalaeth Colwyn, yn weinidog ar Ebeneser, Eglwys yr Annibynwyr, Hen Golwyn. O hyn ymlaen bydd Ebeneser yn rhan o Ofalaeth Bro Colwyn, dan ofal y Parch. Helen Wyn Jones.

Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parch. Iwan Llewelyn Jones, Cricieth, oedd â chysylltiad personol ag Ebeneser oherwydd bu ei dad yn weinidog ar yr eglwys am gyfnod. Ar ddechrau'r gwasanaeth croesawyd y Parchedigion Owain Davies, Trefor Lewis, Ifor Jones ac Alan Spencer, Llywydd Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon, ynghyd â swyddogion Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, sef Mr Huw Roberts, llywydd, a Mrs Bethan Trenchard, ysgrifennydd.

Yn ystod y gwasanaeth holwyd Helen am ei chyffes, ei chred a'i galwad gan y Parch. Iwan Llewelyn Jones, a chafwyd atebion cadarnhaol ganddi. Cafwyd neges bwrpasol, rymus ac ysbrydoledig gan y Parch. Iwan Llewelyn Jones i gloi'r cyfarfod.

Yn dilyn hyn, aeth y gynulleidfa deilwng o aelodau Ebeneser ac eglwysi'r ofalaeth i'r ysgoldy i gael paned a chyfle i gymdeithasu. Yno croesawyd aelodau Ebeneser i Ofalaeth Bro Colwyn gan Nerys Cossey, llywydd yr ofalaeth.

Bu aelodau eglwysi rhyddion Bae Colwyn yn cydaddoli ers blynyddoedd lawer, a bydd cyfle o hyn ymlaen i gydaddoli'n amlach a chydweithio'n fwy clòs dan arweiniad ein gweinidog. Roedd y noson yn achlysur hapus a chalonogol iawn i aelodau'r ofalaeth ynghyd ag aelodau eglwys Ebeneser.

Nerys Cossey

Cofio Gareth Lloyd Jones



Gyda thristwch y clywsom y newyddion am farwolaeth y Parchedig Ddr Gareth Lloyd Jones, Llandegfan, rai dyddiau'n ôl. Dros y blynyddoedd bu wrthi'n ddyfal yn addasu ac yn cyhoeddi llu o lyfrau diwinyddol, gan gynnwys y gyfres Dehongli … a fu'n faes llafur gwersi oedolion yn ein hysgolion Sul. Tynnwyd y llun union flwyddyn yn ôl ar achlysur cyhoeddi'r gyfrol *Dehongli Bywyd Moses*, y bedwaredd ganddo yn y gyfres honno. Bydd yr olaf yn y gyfres yn cael ei gyhoeddi'r mis nesaf, sef *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr.*

Yn enedigol o Chwilog yn Eifionydd, ac wedi treulio cyfnod yn astudio diwinyddiaeth yng Nghymru, Caergrawnt a Jerwsalem, fe aeth i Goleg Yale yn America i ddarlithio ac i wneud ymchwil bellach. Treuliodd amser yn darlithio yng Nghaergrawnt, cyn dod yn ôl i ogledd Cymru, gan ymuno â'r adran ddiwinyddiaeth yn y brifysgol yno yn 1977, a dod yn bennaeth yr adran honno. Roedd hefyd yn Ganon Ganghellor yng Nghadeirlan Bangor, a gwasanaethodd mewn eglwysi a chapeli ar hyd a lled y wlad. Cyhoeddodd amryw o gyfrolau ysgolheigaidd i weisg Saesneg, a llu o gyfrolau Cymraeg i Wasg Prifysgol Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair.

Cofiwn am ei briod annwyl, Gwyneth, ei ferch, Siân, a'r teulu oll yn ein gweddïau. Cynhelir gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd ddydd Iau, 15 Chwefror am 2.30 o'r gloch yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy.

Oedfa *Cenn@d* – 'Iesu, ein teml'

Emyn 25 'Daeth eto fore Saboth'

Gweddi agoriadol

Dad nefol, diolch am y fraint o gael dod atat Ti yn awr trwy Iesu Grist. Boed i'th Ysbryd Glân baratoi ein calonnau i'th addoli Di yn deilwng – mewn ysbryd a gwirionedd. Amen.

Cyflwyniad

Tybed ydych chi wedi cael 'spring clean' eto? Bydd nifer yn defnyddio'r cyfnod cynnar hwn yn y flwyddyn newydd i glirio pethau allan – boed ar yr aelwyd neu yn y gweithle. Cael gwared ar bethau sydd wedi hel, ond nad oes pwrpas neu ddefnydd iddyn nhw bellach. Wrth sortio a threfnu rydym yn helpu i sicrhau bod y pethau sydd ar ôl yn cael eu defnyddio i'w pwrpas. Er bod hyn yn bwysig, yn ein darlleniad heddiw gwelwn Iesu yn gwneud gwaith glanhau arwyddocaol iawn yn y deml yn Jerwsalem sydd yn dweud llawer wrthon ni amdano Ef.

Darlleniad Ioan 2:13–25

Emyn 690 'Tydi, a ddaethost gynt o'r nef'

Gweddi

Arglwydd, deuwn eto mewn addoliad ger dy fron i gydnabod dy frenhiniaeth drosom ni a'n byd. Maddau i ni bob anufudd-dod i'th ewyllys sanctaidd mewn gair, bwriad a gweithred. Glanha ein calonnau, a boed i ni gael ein llwyr feddiannu gan dy Ysbryd di. Dyro i ni sêl am dy waith, a bod hynny'n esgor ar fywyd wedi ei nodweddu gan dy gariad a'th dosturi. Yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Hachubydd. Amen.

Emyn 314 'Enynnaist ynof dân'

Myfyrdod

Mae'r hanes yn Efengyl Ioan yn hynod o arwyddocaol, ac yn digwydd ar ôl i Iesu gyflawni ei arwydd cyntaf yn y briodas yng Nghana wrth iddo droi'r dŵr yn win. Cawn olwg arbennig yn yr hanes yma o Iesu fel dyn, fel Duw, ac fel y wir deml sydd yn aros am byth.

Iesu yn ddyn

Wrth ddarllen yr Efengylau gwelwn gydbwysedd emosiynol hyfryd ym mherson Iesu Grist. Dyma'r un a aeth i ddathlu yn y briodas yng Nghana. Dyma'r un oedd a syched arno wrth ffynnon Jacob. Dyma'r un a wylodd ar ôl clywed am farwolaeth Lasarus. Dyma'r un a ddangosodd drugaredd rhyfeddol yn ei weinidogaeth at amrywiaeth mawr o bobl. Nid stöic sych, academaidd yw Crist. Ef yw'r ymgorfforiad o gariad ei hun. Nid cariad mympwyol nac eiddil, ond cariad angerddol.

Yn yr hanes yma mae Iesu yn dangos ei sêl tuag at Dduw. Dyma sêl nad oedd wedi ei heffeithio gan bechod fel ein hemosiynau ni. Nid oedd yna adeg pan oedd angen i Iesu droi yn ôl i ufuddhau i Dduw eto (neu i edifarhau). Roedd yr Arglwydd Iesu yn byw bywyd o ffydd mewn cymundeb â Duw ar y ddaear – a hynny fel petai ganddo emosiynau dynol fel ni.

Dywed Salm 69:9, 'Canys sêl dy dŷ a'm hysodd; a gwaradwyddiad y rhai a'th waradwyddent di, a syrthiodd arnaf fi.'

Roedd gan Iesu sêl gywir a pherffaith tuag at Dduw. Yn ein dyddiau ni gwelwn mor glir fod yna fath o sêl sy'n arwain at ddinistr, sêl sydd mewn gwirionedd wedi ei seilio ar olwg anghywir o Dduw a/neu ddiffyg ymddiriedaeth yn ei allu Ef i ddwyn ei amcanion i ben. Ei sêl tuag at dŷ Duw a symbylodd Crist i weithredu mewn ffordd gyhoeddus yn y deml i fwrw allan yr hyn oedd yn mynd o'i le yno.

Pa mor barod ydyn ni i wrando ar yr Arglwydd pan mae'n dweud wrthym fod yna rywbeth rydym angen ei glirio allan o'n bywydau? Diolch fod modd i ni wrando ar ei lais Ef yn ei Air ac erfyniwn am gymorth yr Ysbryd Glân i'n puro.

Iesu yn Dduw

Roedd yn gyfnod prysur yn ystod y Pasg pan aeth Iesu gyda'i ddisgyblion i Jerwsalem. Roedd llawer o bererinion wedi teithio o bell i fod yno hefyd. Busnes y cyfnewidwyr arian oedd newid arian Rhufeinig yn arian oedd yn dderbyniol yn y deml er mwyn talu treth y deml. Roedd y masnachwyr hefyd yn gwerthu anifeiliaid i bererinion oedd wedi dod o bell er mwyn gwneud aberthau.

Mewn rhai portreadau o'r olygfa yma o fywyd Iesu efallai y ceir yr argraff fod Iesu yn colli arni braidd, yn colli rheolaeth am funud. Ond nid dyma sut mae'r testun yn ddisgrifio'r digwyddiad. Nid rhywbeth byrbwyll ydoedd, ond yn hytrach mae Iesu yn cymryd amser i ystyried. Gwêl yr anghyfiawnder yn y deml ac mae'n gweithredu â barn ac *awdurdod dwyfol*. Mae hyn yn cyflawni geiriau'r proffwyd Malachi:

> yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml ... Pwy a all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys? Y mae fel tân coethydd ac fel sebon golchydd. Fe eistedd i lawr fel un yn coethi a phuro arian, ac fe bura feibion Lefi a'u coethi fel aur ac arian, er mwyn iddynt fod yn addas i ddwyn offrymau i'r ARGLWYDD. (Malachi 3:1–3)

Un o'r pethau mwyaf trawiadol am yr hanes yma yw ymateb y masnachwyr. Maent fel petaent yn ufuddhau i Iesu heb wrthwynebiad. Nid oes sôn chwaith fod yna reiat wedi torri allan ymhlith y bobl nac am filwyr Rhufeinig yn rhoi taw ar bethau. Roedd awdurdod cynhenid Iesu i lanhau'r deml yn hysbys i'r rhai oedd yn camddefnyddio tŷ Duw.

Iesu'r wir deml

Yn olaf, mae Iesu yn cyhoeddi gwirionedd a fyddai'n dramgwydd i nifer o'r awdurdodau crefyddol: "Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau fe'i codaf hi."

Y deml yn Jerwsalem oedd y fan i addoli Duw, lle roedd Duw yn preswylio, a lle i wneud aberthau iddo. Gyda'r geiriau uchod mae Iesu yn cyhoeddi mai Ef mewn gwirionedd yw'r wir deml. Trwy Iesu, deuwn at Dduw sydd gyda ni; deuwn â'n haberthau o foliant iddo Ef. Deuwn at yr un sydd wedi cyflawni yr unig aberth a'r aberth olaf dros bechodau ei bobl. Er y bri a'r gogoniant oedd yn perthyn i'r ail deml Iddewig, yn 70 OC cafodd ei dinistrio gan luoedd Rhufain.

Yn Iesu Grist mae gennym ni deml sydd wedi ei gwneud nid o waith llaw dyn, ond gan Dduw. Dyma'r deml na all lluoedd angau na'r byd ei threchu. Iesu yw'r deml sydd yn rhagori oherwydd ynddo Ef y mae bywyd. Boed iddo breswylio ynom a meddiannu ein calonnau er clod i'w enw yn ein byd.

Emyn 731 'Gariad dwyfol uwch pob cariad'

Y Fendith

Alun Morton Thomas

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru